**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**7 CHWEFROR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 7 Chwefror 2018

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Carol Ellis a Billy Mullin

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y rhai isod fel Aelodau lleol:
Y Cynghorwyr David Williams a Cindy Hinds ar gyfer eitem agenda 6.3 (057599), Y Cynghorydd Tudor Jones ar gyfer eitem agenda 6.4 (057623), a'r Cynghorydd Carolyn Thomas ar gyfer eitem agenda 6.5 (055798)

**YN MYNYCHU:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Uwch Gynllunwyr, Uwch Beiriannydd – Rheolaeth Ddatblygu Priffyrdd, Uwch Gyfreithiwr a Swyddog Pwyllgorau.

Dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr iddo gael hysbysiad bod y Cynghorydd David Williams eisiau siarad am eitem agenda 6.3 (057599), bod y Cynghorydd Tudor Jones eisiau siarad am eitem agenda 6.4 (057623) a bod y Cynghorydd Carolyn Thomas eisiau siarad am eitem agenda 6.5 (055798)

## 57. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd Y Cynghorydd Christine Jones gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ynglŷn ag eitem agenda 6.2 (057719) oherwydd ei bod yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth. Dywedodd y byddai'n siarad am dri munud ac yna'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais.

Datganodd hefyd y Cynghorydd Chris Bithell gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ynglŷn ag eitem agenda 6.2 (057719) oherwydd ei fod yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais.

Datganodd y Cynghorydd Derek Butler gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ynglŷn ag eitem agenda 6.4 (057623) oherwydd ei fod yn aelod o'r Bwrdd AHNE a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais.

Datganodd y Cynghorydd Owen Thomas gysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu ynglŷn ag eitem agenda 6.4 (057623) oherwydd ei fod yn aelod o'r Bwrdd AHNE a dywedodd y byddai'n gadael yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais.

## 58. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi'u hatodi at yr agenda ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4142&Ver=4&LLL=0

late observations 07.02.18

## 59. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 60. EITEMAU I'W GOHIRIO

Argymhellodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) fod eitem agenda rhif 6.5 – (055798) – Cais Llawn – materion a gadwyd yn ôl (Mynediad, Gwedd, Tirlunio, Gosodiad a Graddfa) yn unol â gofynion Amod Rhif 2 y caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 051831 ger Station Yard, Corwen Road, Coed Talon, yn cael ei gohirio. Esboniodd y Prif Swyddog ei fod yn argymell y dylai'r cais gael ei ohirio er mwyn cael eglurhad pellach gan yr ymgeisydd ynglŷn â Rhwymedigaeth neu Ymgymryd Unochrog A106 a manyleb y man chwarae.

Wedi'r bleidlais, cafodd yr eitem ei gohirio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitem agenda rhif 6.5 – (055798) – Cais Llawn – materion wedi'u cadw'n ôl (Mynediad, Gwedd, Tirlunio, Gosodiad a Graddfa) yn unol â gofynion Amod 2 y caniatâd cynllunio amlinellol cyfeirnod 051831 ger Station Yard, Corwen Road, Coed Talon, yn cael ei gohirio.

## 61. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Cais Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

## 62. PRESENOLDEB AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd naw aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.14pm)

**..................................................**

**Cadeirydd**

## PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 7 CHWEFROR 2018

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 057865 | Cyngor Tref Treffynnon | Cais Llawn – Codi 44 o gartrefi ynghyd â safle parcio, tir agored a mynediad newydd ger Halkyn Road, Treffynnon. | Siaradodd Mr. F. Phillips yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd i'r cynllunio amodol, os yw'r ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth Adran 106 newydd i sicrhau y rhai isod:<br>(a) Bod y cartrefi i gyd yn fforddiadwy yn unol â pholisi gosod eiddo y cytunwyd arno; a<br>(b) Bod swm cynhaliaeth ohiriedig yn cael eu talu ar gyfer y man chwarae/ardal agored am gyfnod o ddeng mlynedd, wrth iddo gael ei feddiannu gan yr Awdurdod<br><br>Yn gytûn ag argymhelliad y swyddog a'r amodau a restrir yn yr adroddiad a'r amod ychwanegol a osodir yn y ffurflen sylwadau hwyr. |
| 057719 | Cyngor Tref Shotton | Cais Llawn – Adeiladu cyfleuster Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu newydd yn John Summers High School, Chester Road West, Queensferry. | Siaradodd Mr. N. Maddocks, yr Asiant, o blaid y cais.<br><br>Wedi datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, gadawodd y Cynghorydd Chris Bithell yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais.<br>Wedi datgan cysylltiad | Rhoi caniatâd i'r cynllun yn unol â'r amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, siaradodd y Cynghorydd Christine Jones am dri munud am y cais, yna gadawodd yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais. | |
| 057599 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais Llawn – Codi ysgol gynradd newydd, gwaith allanol cysylltiedig, mynedfa ychwanegol i gerbydau a chreu mynedfa dros dro i safle presennol Penyffordd Infants School yn Ysgol Penyffordd, Abbotts Lane, Penyffordd. | Siaradodd Mr. J. Sumner, oedd yn cynrychioli Cymdeithas Preswylwyr Abbotts Lane, yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Mrs. J. Mulvery, Prif Athrawes, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd David Williams, fel Aelod Ward lleol cyfagos, am bum munud yn erbyn y cais. | Rhoi caniatâd i'r cynllun yn unol â'r amodau a restrir yn adroddiad y swyddog, ac yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057623 | Cyngor Tref Caerwys | Newid defnydd y tir i barc gwyliau a hamdden amlddefnydd ym Maes Mynan Quarry, Denbigh Road, Afonwen. | Wedi datgan cysylltiad personol a chysylltiad sy'n rhagfarnu, gadawodd y Cynghorwyr Derek Butler ac Owen Thomas yr ystafell cyn y drafodaeth a'r bleidlais dros y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio, os yw'r ymgeisydd yn cytuno i Rwymedigaeth/Ymgymryd Unochrog Adran 106 i sicrhau y rhai isod:<br>Bod gweithredu ar elfen y carafannau teithio yn cael ei gohirio nes bod symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) i'r chwarel gyfagos wedi stopio.<br><br>Yn unol ag argymhelliad y swyddog a'r |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | Siaradodd Mr. P. Barlow, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Tudor Jones, fel Aelod Ward lleol, am bum munud yn erbyn y cais. | amod ychwanegol fel y gosodir yn y ffurflen sylwadau hwyr a'r amod pellach y penderfynwyd arno gan y Pwyllgor ynglŷn â chynllun am gamau diogelu o gwmpas yr ardal o ddŵr agored. |
| 055798 | Cyngor Cymuned Treuddyn | Materion wedi'u cadw'n ôl (Mynediad, Gwedd, Tirlunio, Gosodiad a Graddfa) yn unol â gofynion Amod rhif 2 y caniatâd cynllunio amlinellol Cyfeirnod: 051831 ger Station Yard, Corwen Road, Coed Talon. | Wedi'u gohirio | Gohirio'r eitem er mwyn cael eglurhad pellach ynglŷn â'r man chwarae. |
| **APELIADAU** | | **WEDI'U NODI** | | |
| 6.6 | 056215 | Apêl gan Jones Engineering & Construction Ltd yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod y cynllun i gael gwared ar gartrefi presennol a chodi tri chartref newydd ger Cornerways, Cefn Bychan Road, Pantymwyn - **WEDI'I GWRTHOD**. | | |
| 6.7 | 056703 | Apêl gan Mr O. McKay yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod y cynllun i godi tri chartref | | |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | CAM GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | ger Centre Point Garage, Denbigh Road, Afonwen - **WEDI'I GWRTHOD.** | | |